# NEWYDDION Y CANOLBWYNT – AWST 2025

## 2024-2025 BLWYDDYN LWYDDIANNUS ARALL

- Bu i 345 gofrestru ar gyfer y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy, a bu i ni gefnogi 174 i gael gwaith.
- Cofrestrodd 39 o bobl ar y rhaglen ACE (Cyflogaeth Gymunedol â Chymorth)
- Cymerodd 135 o bobl ran yn y rhaglen Hyder yn dy hun
- Enillodd 260 o drigolion sir Conwy sgiliau newydd ar ein cyrsiau a’n llwybrau hyfforddi
- Cymerodd 29 o bobl ran yn ein Sesiynau Blasu ar gyfer sectorau diwydiant penodol
- Elwodd 182 o bobl ifanc o’r Prosiect Cyflogadwyedd i Bobl Ifanc
- Cymerodd 70 o bobl ran yn y Cymorth Rhifedd Cyflogadwyedd Wedi’i Dargedu (TENS)

Dywedodd Libby Duo, Rheolwr Strategol Canolbwynt Cyflogaeth Conwy:  “Mae hwn yn gyflawniad trawiadol ac mae’r diolch i’r tîm sydd wedi gweithio’n ddiflino dros y flwyddyn.

“Er mai dim ond am gyfnod byr y mae rhai o gyfranogwyr rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy Llywodraeth Cymru wedi bod allan o waith, mae llawer wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir ac mae angen cymorth personol a hirfaith arnyn nhw i ddatblygu eu hyder a’u sgiliau cyn iddyn nhw fod yn barod i ystyried gwneud cais am swyddi. Gan hynny, mae sicrhau gwaith i dros 50% yn dyst i bwysigrwydd y rhaglen hon yn ogystal â rôl ganolog y gwaith mentora wedi'i deilwra.

“Llwyddodd y Canolbwynt hefyd i sicrhau cyllid ychwanegol gan Gronfeydd Allweddol UKSPF Conwy ar gyfer TENS, Hyder yn dy hun a Phrosiect Cyflogadwyedd Pobl Ifanc yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer y Llwybrau Hyfforddi a’r Sesiynau Blasu. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy er mwyn ein galluogi i ehangu ein cefnogaeth, ac mae’r canlyniadau eto yn dangos llwyddiant y dull targedu hwn.

“Yn ogystal â’r holl raglenni, fe gynhaliom 334 o sesiynau galw heibio yn y gymuned yn ogystal â mynychu digwyddiadau nodedig gan gynnwys Cymerwch Ran yn Venue Cymru, ‘Pride’ Bae Colwyn a gweithio mewn partneriaeth â STAND Gogledd Cymru CIC i gynnal trydedd Sioe Deithiol Anabledd Gogledd Cymru. Mae'r digwyddiadau hyn yn ein rhoi yng nghanol y gymuned, ac yn galluogi trigolion sir Conwy i gael mynediad rhwydd er mwyn cwrdd â'n mentoriaid a chofrestru ar gyfer ein gwasanaethau. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar lwyddiant y rhaglenni a’r digwyddiadau dros y flwyddyn nesaf.”

## Y FLWYDDYN SYDD O’N BLAENAU

Yn y flwyddyn ariannol hon byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y llynedd. Cymunedau am Waith a Mwy, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fydd craidd gwaith y Canolbwynt o hyd, gyda chefnogaeth Llywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n ein galluogi i barhau â Hyder yn dy hun, ACE, Prosiect Cyflogadwyedd Pobl Ifanc a Chyrsiau a Llwybrau Hyfforddi. Gan mai dim ond yn ddiweddar y cafwyd cadarnhad o'r cyllid hwn, rydym wrthi'n gweithio ar yr amserlen hyfforddi a fydd yn cynnig cyfuniad o hyfforddiant ar sgiliau meddal a chyflogadwyedd, cymwysterau ardystiedig yn seiliedig ar y sector a phrofiad gwaith ymarferol, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi ad-hoc sydd o fewn anghenion datblygu’r unigolyn.

# DATBLYGIADAU NEWYDD

## Cysylltu â Gwaith (C2W)

Un o raglenni blaenllaw Strategaeth Cael Prydain i Weithio Llywodraeth y DU yw rhaglen wirfoddol newydd Cyflogaeth â Chymorth, sy'n defnyddio model "lleoli, hyfforddi a chynnal" a brofwyd i helpu pobl sydd â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu rwystrau cymhleth i gael gwaith cynaliadwy ac ystyrlon.Cyngor Sir Dinbych yw'r Corff Atebol ar gyfer Gogledd Cymru, a bydd yn arwain ar ddatblygu cynllun cyflawni rhanbarthol ar ran yr holl Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru.

## Cynlluniau Peilot Arloesol Iechyd a Lles

Mae £10 miliwn wedi'i neilltuo i Gymru i integreiddio cymorth iechyd â gwasanaethau cyflogaeth – yn enwedig i'r bobl sy'n sâl ac yn anweithgar yn y tymor hir. Mae Sir Ddinbych wedi cael ei dewis ar gyfer un o'r tri chynllun peilot ledled Cymru a fydd yn rhedeg tan fis Mawrth 2026.

## Porth Sgiliau Gogledd Cymru

Os hoffech gael gwybodaeth a mynediad at y cymorth sydd ar gael i ddatblygu eich gweithlu, yna Porth Sgiliau Gogledd Cymru yw eich ffynhonnell wybodaeth!

Mae Porth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ganolbwynt i bobl sy'n chwilio am eu cyfle nesaf a chyflogwyr sy'n awyddus i ehangu eu rhwydweithiau ar gyfer doniau lleol. Gellir defnyddio'r platfform yn rhad ac am ddim ac mae'n cynnwys digwyddiadau lleol, adnoddau cyflogadwyedd a chanllawiau i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn y rhanbarth.

Gellir cael mynediad at Borth Sgiliau Gogledd Cymru **yma**

## Busnes Cymru

Mae gan Busnes Cymru gyfoeth o wybodaeth amhrisiadwy ar gyfer busnesau o bob maint, yn ogystal â chymorth a chyngor i'r rhai sy'n ystyried cychwyn busnes.

Mae ystod gynhwysfawr ac ymarferol o ganllawiau i helpu gyda rhedeg busnes, ac ystod o adnoddau a chymorth arbenigol i helpu i dyfu busnes, gan gynnwys **cyflogi pobl anabl**, a'i Wasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein (**BOSS**) sydd ag ystod o gyrsiau ar-lein.

Mae gan Busnes Cymru daflen ffeithiau hefyd sy'n rhoi manylion am fanteision recriwtio cyn-droseddwyr a thaflen sy'n chwalu'r nifer o gamdybiaethau ynghylch cyflogi pobl sydd wedi gadael carchar. Os nad ydych wedi ystyried cyflogi rhywun sydd wedi gadael carchar, efallai mai nawr yw'r amser, yn enwedig gan fod llawer ohonynt o gefndir gwaith cryf, tra bod eraill wedi ennill sgiliau a chymwysterau newydd yn ystod eu hamser yn y carchar.

Mae cymorth Busnes Cymru yn cael ei ariannu'n llawn, felly i gael mwy o fanylion ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/** neu ffoniwch 03000 6 03000.

## Cyfrifon Dysgu Personol

Os oes gennych aelod o staff sy'n dymuno ennill sgiliau lefel uwch, mae'r Cyfrif Dysgu Personol (PLA) yn ffordd wych o wneud hynny tra maent yn parhau â'u gwaith presennol.

Mae'r cyrsiau hyblyg a rhan-amser wedi'u hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rheiny dros 19 oed; sy'n byw yng Nghymru; sy'n ennill llai na £32,371 (ac eithrio'r cyrsiau Digidol a Sero Net nad oes terfynau cyflog uchaf ar eu cyfer); os ydych chi'n gyflogedig gan gynnwys yn hunangyflogedig, ar gontract dim oriau, yn staff asiantaeth neu mewn perygl o gael eich diswyddo.

Mae'r cyrsiau wedi'u halinio i sectorau lle mae prinder sgiliau ac mae nifer o gyrsiau ym mhob sector i ddewis ohonynt:

- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch gan gynnwys peirianwyr technegol
- Sgiliau Digidol
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch gan gynnwys cogyddion, gweinyddwyr a staff blaen tŷ
- Logisteg, yn enwedig gyrru cerbydau HGV ac LGV
- Technolegau Sero Net a Gwyrdd

Gellir gwneud cais am Lwfans Dysgu Personol drwy wefan **Cymru'n Gweithio** neu gyda **Grŵp Llandrillo Menai**.

## Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP) yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu busnesau mewn unrhyw sector ledled Cymru i adeiladu gweithlu cryfach a mwy medrus. Gall cyflogwyr wneud cais am gyllid i dalu hyd at 50% o gostau'r hyfforddiant achrededig, gyda gwerth uchaf o £50,000 fesul cais.

I fod yn gymwys mae'n rhaid i'ch busnes fod yng Nghymru, heb unrhyw ddyledion ariannol a rhaid i chi ymrwymo i ryddhau staff i gwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd Mawrth 2026. Rhaid i bob elfen o'r hyfforddiant hefyd wella gallu neu gapasiti'r busnes.

Mae'n hawdd gwneud cais a'r cam cyntaf yw cwblhau'r ffurflen Mynegi Diddordeb sy'n cael ei hadolygu gan Lywodraeth Cymru. Os ydych yn gymwys, byddwch yn cael gwahoddiad i gyflwyno ffurflen gais fanwl a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith.

Felly p'un a ydych chi'n chwilio am ffordd o lenwi bylchau sgiliau, cadw staff, neu ddenu talent newydd, gall y **Rhaglen Sgiliau Hyblyg** eich helpu i fuddsoddi yn nyfodol eich tîm.

## Adnoddau a Gweithdai Sgiliau Sero Net

Mae'r Rhaglen Sgiliau Sero Net mewn Adeiladu yn hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus newydd a rhad ac am ddim sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer addysgwyr yn yr amgylchedd adeiledig.

Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan Supply Chain Sustainability School ac wedi'i hariannu gan CITB, gan gynnig cyfres o weithdai, animeiddiadau ac astudiaethau achos ar-lein i'ch helpu i ymgorffori cynaliadwyedd a phynciau sero net yn hyderus wrth addysgu. Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio ar y cyd â chyflogwyr blaenllaw gan gynnwys Berkeley Group, Kier, Balfour Beatty a Morgan Sindall, gan sicrhau eu bod yn gyfredol, yn ymarferol ac yn cyd-fynd ag anghenion presennol y diwydiant.

Y gweithdai ar-lein sydd ar gael am ddim yw:

- Cyflwyniad i Gynaliadwyedd – Dydd Mercher 27 Awst, 1-4pm
- Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth, Sero Net a Gwrthbwyso – Dydd Gwener 29 Awst, 1-4pm
- Dylunio gan Leihau Carbon – Dydd Mercher 3 Medi, 1 - 4pm
- Deall Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau – Dydd Gwener 5 Medi, 1 - 4pm
- Dulliau Adeiladu Modern – Dydd Mercher 29 Hydref, 1 - 4pm
- Effeithlonrwydd Ynni - Dydd Gwener 7 Tachwedd, 1 - 4pm

Gallwch fynychu unrhyw un neu bob un o'r sesiynau, ac maent ar agor i bob addysgwr, o diwtoriaid a darlithwyr i arweinwyr cwricwlwm ac ymgynghorwyr gyrfa.

Os nad ydych yn aelod o Supply Chain Sustainability School, [ymunwch nawr am ddim]

# RECRIWTIO

## Diwrnodau Agored Recriwtio

Ydych chi'n cael trafferth recriwtio staff? Gallwn eich helpu i gynllunio a chynnal Diwrnod Agored Recriwtio pwrpasol sy'n rhoi profiad personol i ymgeiswyr o'ch sefydliad, gan ganiatáu rhyngweithiadau wedi'u targedu ac o bosibl mwy o siawns iddynt sicrhau swydd a chithau i lenwi'ch swyddi gwag!

Rydym wedi cynnal dau Ddiwrnod Agored Recriwtio llwyddiannus ar gyfer Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno, a ddenodd 46 o bobl sy'n chwilio am waith ac arweiniodd at 13 o gynigion swydd.  Yr wythnos ddiwethaf, cynhaliom ddigwyddiad ar gyfer The Mulberry ym Marina Conwy hefyd, a ddenodd 22 o bobl.

Os hoffech drafod hyn ymhellach gyda ni, ffoniwch Alice ar 07548 845679 neu e-bostiwch cyflogwyr@conwy.gov.uk.

## Ffeiriau Swyddi

Rydym wedi cynllunio nifer o Ffeiriau Swyddi mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer 2025, felly os ydych chi'n recriwtio ar hyn o bryd neu'n bwriadu recriwtio yn nes ymlaen eleni, rhowch y dyddiadau hyn yn eich dyddiadur:

**Ffair Swyddi'r GIG, Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Dydd Iau 25 Medi, 10am-1pm**
Gwesty St George, Llandudno

**Dydd Iau 30 Hydref, 11am-1pm**
Gwesty St George, Llandudno

**Dydd Iau 27 Tachwedd, 11am-1pm**
Canolbwynt Cymunedol Bae Colwyn

Maent yn rhad ac am ddim i gyflogwyr fynychu a gyda rhwng 60 a 70 o geiswyr gwaith yn mynychu pob digwyddiad, maent yn gyfle delfrydol a chost-effeithiol i fusnesau gysylltu â phobl sy'n chwilio'n weithredol am waith.

I gofrestru neu i gael eich ychwanegu at y rhestr bostio i dderbyn manylion yn nes at yr amser, e-bostiwch cyflogwyr@conwy.gov.uk.

# NEWYDDION CYFLOGWYR

## Iechyd Meddwl yn y Gweithle

Ym mis Ionawr cynhaliwyd Digwyddiad Rhwydweithio Busnes Conwy llwyddiannus yng ngwesty St George yn Llandudno, lle daeth arbenigwyr ynghyd i gynnig arweiniad ar fuddion gwella iechyd meddwl a lles gweithwyr.

Gyda chyflwyniadau gan Mind Conwy, Cymru Iach ar Waith, RCS a Perkbox, dysgodd 52 o gyflogwyr mai gweithwyr hapus sy'n cael eu cefnogi yw'r gwir bŵer y tu ôl i lwyddiant busnes.

Bydd ein Digwyddiad Rhwydweithio Busnes nesaf yng Nghonwy yn digwydd ddydd Iau 29 Ionawr 2026 felly bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn yn nes at yr amser, ond os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr bostio i dderbyn manylion, anfonwch e-bost at **cyflogwyr@conwy.gov.uk**.

## Moneyworks Cymru

Mae Moneyworks Cymru yn gydweithrediad rhwng prif fusnesau cydweithredol ariannol y wlad, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i wella lles ariannol gweithwyr Cymru:

- Cynllun cyflogau moesegol sy'n meithrin lles ariannol i weithwyr
- Mantais am ddim i staff sy'n hybu sefydlogrwydd ariannol
- Cynilion a benthyciadau yn syth o'r cyflog
- Helpu i amddiffyn gweithwyr rhag benthycwyr diwrnod cyflog a benthycwyr arian didrwydded
- Cyfeirio i gael cymorth a chyngor diduedd i staff sydd mewn trafferthion ariannol
- Gwella morâl a chynhyrchedd yn y gweithle

Mae sefydlu cynllun cyflogres ar gyfer sefydliadau yn hawdd a thrwy weithio mewn partneriaeth â Moneyworks Cymru byddwch yn rhoi mynediad i'ch gweithwyr at gyllid teg a moesegol ac yn eu helpu i gronni eu cynilion. Am fy o wybodaeth am Moneyworks Cymru, ewch I **https://www.moneyworkswales.com/?lang=cy**

## RCS Yn Cael Hwb Ariannol Mawr

Dyfarnwyd cyllid o dros £3m i RCS i gefnogi pobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol yn ogystal â phobl ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i ddechrau gyrfaoedd "gwyrdd".

Nid yw gyrfaoedd gwyrdd wedi'u cyfyngu i'r sector Sero Net / Gwyrdd gan eu bod yn cynnwys unrhyw swyddi sy'n helpu i leihau allyriadau carbon, adfer natur a'n helpu i addasu i'n hinsawdd sy'n newid, er enghraifft bod yn gogydd mewn caffi dim gwastraff, yn beiriannydd dan hyfforddiant i gwmni ynni adnewyddadwy neu'n swyddog cadwraeth ar warchodfa natur.

Mae'r prosiect 5 mlynedd yn cael ei ariannu drwy'r gronfa Asedau Segur sy'n cael ei darparu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.